

Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 17 Mawrth 2021

10.00 - 13.00

Microsoft Teams

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:

Gareth Pierce
William Callaway
Nia Elias
Yr Athro Jerry Hunter
Meri Huws
Dr Anwen Jones
Gwilym Dyfri Jones
Pedr ap Llwyd
Dr Rhodri Llwyd Morgan
Llinos Roberts
Angharad Roberts

Sylwedyddion:

Ann Beynon
Meg Hughes, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Branwen Thomas, Llywodraeth Cymru
Yr Athro Enlli Thomas

Swyddogion:

Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Dr Dylan Phillips, Ysgrifennydd
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd
Nia Brown, Swyddog Llywodraethiant

Yn bresennol:

Rhian Huws Williams (Eitem 3)

Ymddiheuriadau:

Dr Hefin Jones
Yr Athro Hywel Thomas

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a materion rhagarweiniol	<p>1.1 Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.</p> <p>1.2 Eglurwyd y byddai adroddiad llafar byr ar y broses penodi cyfarwyddwyr cyn dechrau'r cyfarfod llawn.</p>		
2. Datganiadau o ddiddordeb	<p>2.1 Nodwyd bod Dr Rhodri Llwyd Morgan yn gweithio yn yr un sefydliad â'r Dr Anwen Jones; a'r Athro Jerry Hunter yn yr un sefydliad â'r Athro Enlli Thomas.</p>		
3. Penodi cyfarwyddwyr newydd (Eitem 3i)	<p>3.1 Rhoddwyd cyflwyniad gan yr Ysgrifennydd a Chadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant ar broses penodi cyfarwyddwyr newydd.</p> <p>3.2 Adroddwyd yn dilyn ystyried a chadarnhau'r penodiadau trwy ohebiaeth, a gylchredwyd i aelodau'r Bwrdd ar 5 Mawrth 2021, cynhaliwyd proses anwytho anffurfiol. O hynny daeth yn amlwg bod angen newid dyddiad dechrau rhai o'r cyfarwyddwyr newydd am resymau ymarferol.</p> <p>3.2 Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd y penodiadau canlynol i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dr Anwen Jones o 17 Mawrth 2021 ar gyfer un lle gwag • Ann Beynon a'r Athro Enlli Thomas o 1 Ebrill 2021 ar ddiwedd cyfnodau'r Dr Hefin Jones a'r Athro Hywel Thomas 		

<p>4. Croeso ffurfiol</p>	<p>4.1 Ar y pwynt hwn ymunodd a chroesawyd Dr Anwen Jones fel aelod newydd o'r Bwrdd; ac Ann Beynon fel sylwedydd ar gyfer y cyfarfod hwn.</p> <p>4.2 Croesawyd Angharad Roberts yn ôl yn dilyn ei chyfnod mamolaeth.</p> <p>4.3 Croesawyd Iwan Evans, fel sylwedydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, i'w gyfarfod cyntaf.</p> <p>4.4 Nodwyd ymddiheuriadau gan Dr Hefin Jones a'r Athro Hywel Thomas ar achlysur eu cyfarfod olaf gan nodi gwerthfawrogiad am eu gwaith diflino ar hyd eu degawd o wasanaeth.</p>		
<p>5. Datganiadau o ddiddordeb</p>	<p>5.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.</p> <p>5.2 Atgoffwyd yr aelodau yn ogystal i gwblhau'r ffurflen datgan buddiannau newydd a gylchredwyd yn ddiweddar.</p> <p>5.3 Diolchwyd i staff y Coleg am drefniadau'r Llys a'r Cynulliad Blynyddol a gynhaliwyd yn rhithiol y diwrnod cynt.</p>		
<p>6. Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant</p> <p>(Eitem 3i)</p>	<p>Ail-hysbysebu ar gyfer cyfarwyddwyr newydd</p> <p>6.1 Rhoddwyd cyflwyniad gan Gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant ar y rhesymeg dros ail-hysbysebu ar gyfer dau le gwag ar ddiwedd cyfnodau'r Athro Jerry Hunter a Dr Rhodri Llwyd</p>		

<p>(Eitem 3ii)</p>	<p style="text-align: center;">Morgan.</p> <p><i>Ar y pwynt hwn ymunodd Meg Hughes</i></p> <p>6.2 Yn ystod y drafodaeth nodwyd yr angen i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • flaenoriaethu penodiad o gefndir cyflogwyr a phrentisiaethau • feithrin a datblygu ymgysylltiad ag unigolion posibl • ystyried penodi cwmni penhela i gadw hyd-braich o'r broses recriwtio • hybu amrywiaeth ac ehangder • adolygu fframweithiau llywodraethiant y Coleg maes o law <p>6.3 Cymeradwywyd yr argymhelliad i ail-hysbysebu er mwyn llenwi'r ddau le gwag erbyn diwedd Tachwedd 2021.</p> <p>6.4 Yn ystod y drafodaeth nodwyd gwerthfawrogiad yr Ysgrifennydd at waith y panel penodi a oedd yn cynnwys Gareth Pierce, Rhian Huws Williams, Wyn Mears a Denise Williams.</p> <p>Cofnodion y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant</p> <p>6.5 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2021.</p> <p>6.6 Adroddwyd y cynhelir rhaglen gynefino llawn a fydd yn cynnwys aelodau newydd y Bwrdd a'r pwyllgorau erbyn diwedd Gorffennaf 2021.</p> <p><i>Ar y pwynt hwn ymadawodd Rhian Huws Williams</i></p>		
--------------------	--	--	--

<p>7. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 25 Tachwedd 2021</p> <p>(Eitem 4)</p>	<p>7.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021.</p> <p>Materion yn codi</p> <p>7.2 <u>Eitem 4.6: Cyngor cyfreithiol ynghylch cryfhau'r Gymraeg</u>: Adroddwyd y derbyniwyd cyngor gan gyfreithwyr y Coleg, Darwin Gray, y dylai'r Coleg ystyried ei sefyllfa ar ôl yr etholiad os yw'r ddeddfwriaeth i sefydlu corff rheoleiddio newydd ar gyfer y sector ôl-orfodol yn cael ei chyflwyno gan y llywodraeth newydd.</p> <p>7.3 <u>Eitem 4.6: Ffrwd cyllid</u>: Adroddwyd y derbyniwyd sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd y trefniadau cyllido presennol yn parhau, o sefydlu'r corff arfaethedig.</p> <p>7.4 <u>Eitem 6.4: Awdurdod y Bwrdd Academiaidd</u>: Adroddwyd y nodwyd y pwynt ac ystyrir y mater wrth adolygu'r cylchoedd gorchwyl yn hwyrach yn y flwyddyn.</p>		
<p>8. Adroddiad y Prif Weithredwr</p> <p>(Eitem 6)</p>	<p>8.1 Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar.</p> <p>Cyllideb 2021/22</p> <p>8.2 Adroddwyd ar sefyllfa'r cyllideb atodol ar gyfer 2021/22 sydd bellach yn cynnwys £810,000 yn ychwanegol ar gyfer gweithredu'r cynllun Addysg Bellach a Phrentisiaethau. Hefyd bydd £190,000 a ddyrannwyd yn 2020/21 ar gael eto yn 2021/22.</p> <p>8.3 Adroddwyd ar gyfarfodydd ymgysylltu gyda phleidiau gwleidyddol wrth baratoi ar gyfer etholiadau'r Senedd;</p>		

	<p>Maniffesto'r Coleg ar gyfer dysgu gydol oes Cymraeg a dwyieithog y sector ôl-orfodol yng Nghymru (2020 i 2025); a'r digwyddiad a gynhaliwyd gydag aelodau'r Senedd ar 1 Mawrth 2021.</p> <p>Cronfa Adfer – CCAUC</p> <p>8.4 Adroddwyd ar gyllid ychwanegol a ddarparwyd gan gronfa adfer y Cyngor Cyllido ar gyfer cefnogi darpariaeth cyfunol cydweithredol yn y sector Addysg Uwch. Mae'r Coleg yn rheoli rhan o'r prosiect ar ran Prifysgol Glyndŵr ac yn datblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg mewn meysydd penodol. Bydd y prosiect yn gosod cysail i ddatblygu adnoddau pellach yn y dyfodol.</p> <p>Cyfarfod gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr CCAUC</p> <p>8.5 Adroddwyd bod y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod Cadeirydd a Phrif Weithredwr CCAUC, Rob Humphreys a Dr David Blaney. Ymysg y materion a drafodwyd oedd y corff rheoleiddio ôl-orfodol arfaethedig.</p> <p>Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)</p> <p>8.6 Adroddwyd ar y trafodaethau manwl i gefnogi'r ymgais i gynyddu cyflenwad athrawon i ddiwallu anghenion y cynlluniau addysg sirol a thargedau Strategaeth Iaith Gymraeg 2050.</p> <p>Yr argyfwng</p> <p>8.7 Adroddwyd bod blwyddyn ers i swyddfeydd y Coleg gau a'r staff wedi gweithio o'u cartrefi. Adroddwyd ar y</p>		
--	--	--	--

<p>(Atodiad 6A)</p>	<p>gefnogaeth sydd wedi ei roi i staff ar ffurf canllawiau pellach ar weithio o adre yn ystod y cyfnod y mae'r ysgolion wedi bod ar gau.</p> <p>Cynllunio Academaidd</p> <p>8.8 Adroddwyd bod y cyfarfodydd cynllunio arferol yn parhau gyda'r prifysgolion yn ogystal â'r trafodaethau gyda'r sectorau addysg bellach a phrentisiaethau.</p> <p>Agenda gwrth-hiliaeth</p> <p>8.9 Adroddwyd y cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant ar wrth-hiliaeth i holl staff y Coleg yn ddiweddar. Bydd hyfforddiant pellach ar ragfarn ddarwybod yn ystod tymor y gwanwyn.</p> <p>Diweddariadau cyffredinol ar waith y Coleg</p> <p>8.10 Derbyniwyd adroddiadau ysgrifenedig mewn perthynas â Gwasanaethau Gwybodaeth; Darpariaeth a Staffio Addysg Uwch; Myfyrwyr Addysg Uwch; Hyfforddiant Academaidd ac Ysgoloriaethau Ymchwil; <i>Gwerddon</i> a phrosiectau cyhoeddi eraill; Gweithgareddau a Phrosiectau Cydweithredol; Cynllun Cymraeg Gwaith; a'r Gymraeg fel pwnc. Nodwyd y cylchredwyd adroddiad ar Farchnata a Chynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau, er gwybodaeth.</p> <p><i>Ar y pwynt hwn ymadawodd Branwen Thomas</i></p> <p>8.11 Yn ystod y drafodaeth nodwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • argymhelliad i gasglu gwaith ymchwil ar gaethwasiaeth ynghyd a'i osod ar y Porth • bod y Coleg eisoes wedi penodi llysgenhadon o 		
----------------------------	--	--	--

	<p>gefndir Du, Asiaidd a Lleaifridoedd Ethnig (DALIE)</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod cyfeiriad at arfer da y Coleg mewn cyhoeddiad gan y Mudiad Meithrin mewn perthynas ag ymgysylltu â'r gymuned DALIE • gwaith ehangu mynediad yng nghyd-destun anghyfartaledd economaidd gymdeithasol • bod y cynnydd yng ngwaith y Coleg yn ystod cyfnod yr argyfwng i'w ganmol <p>8.12 Adroddwyd bod datganiad am gyllid ychwanegol i'r Coleg wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfarfod. Yn dilyn trafodaeth argymhellwyd cynnal cyfarfod thematig cyn cyfarfod arferol y Bwrdd ym mis Mehefin, os yn berthnasol, i drafod sut i flaenoriaethu'r cyllid ar gyfer addysg bellach.</p> <p><i>Ar y pwynt hwn ymunodd yr Athro Enlli Thomas ac fe'i chroesawyd fel sylwedydd</i></p>	Cyfarfod ychwanegol, posibl	Cyn Mehefin 2021
9. Adroddiad y Cadeirydd	<p>9.1 Adroddodd y Cadeirydd ar ei gyfarfodydd ymgysylltu gyda'r Prif Weithredwr; cyfarfod gyda'r Cyngor Cyllido, (gweler uchod) gan gynnwys sefyllfa recriwtio myfyrwyr a datblygiadau yn Lloegr o ran ffioedd; a'i brofiad cadarnhaol o ymuno mewn sesiwn ddysgu cyfunol a gynhaliwyd gan y Coleg, gan gynnwys cyfraniadau gan sefydliadau yn cynnwys y Brifysgol Agored.</p> <p>9.2 Estynnodd ddiolch i Nia Elias am fod yn rhan o ymgyrch recriwtio cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd.</p>		
10. Bwrdd Academaidd (Eitem 8)	<p>Bwrdd Academaidd</p> <p>10.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2021.</p>		

	<p>10.2 Adroddodd y Prif Weithredwr y cafwyd adborth cadarnhaol gan y myfyrwyr ynghylch y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod y pandemig.</p> <p>10.3 Nodwyd y talwyd teyrnged i Dr Hefin Jones am ei waith fel cadeirydd y Bwrdd Academaidd. Nodwyd yn arbennig ei gefnogaeth i'r cynllun staffio academaidd.</p> <p>10.4 Adroddwyd mai gwaith y cyfnod nesaf fyddai ail-afael yn nhrafodaethau ynghylch trywydd y cynllunio academaidd.</p>		
<p>11. Bwrdd Strategol ôl-16</p> <p>(Eitem 9)</p>	<p>Bwrdd Strategol ôl-16</p> <p>11.1 Cafwyd crynodeb o brif bwyntiau cyfarfod 10 Mawrth 2021, gan Meri Huws, Cadeirydd y pwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod 30 o gynrychiolwyr o'r sector yn bresennol • Pwysigrwydd y sylw a roddwyd i'r maes yn y seminar a gynhaliwyd gyda gwleidyddion ar 1 Mawrth 2021 • Croesawu'r cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru • Creu adnoddau dysgu • Llwyddiant y llysgenhadon • Twf mewn pynciau • Cydweithio pwrpasol gyda NTFW a CholegauCymru • Heriau cynyddu niferoedd staff – Cyngor Gweithlu Addysg • Gweithredu'r cynllun gweithredu • Trafodaethau â Chymwysterau Cymru <p>11.2 Yn ystod y drafodaeth nodwyd:</p>		

<p>(Eitem 11i)</p>	<p>13.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2021.</p> <p>13.2 Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 20 Ionawr 2021, gan Pedr ap Llwyd, Cadeirydd y Pwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nododd bod yr adroddiad Adnoddau Dynol yn rhoi sicrwydd bod y Coleg yn gyflogwr gofalgwr a chyfrifol • Nododd bod yr adroddiad Marchnata yn dangos bod y Coleg wedi addasu'r gwaith yn effeithiol mewn ymateb i'r argyfwng • Nododd yr angen i gynnal cyfarfod caeëdig ar 5 Mawrth 2021 i drafod adolygu cyflogau'r Prif Weithredwr a'r uwch reolwyr a chytuno ar y gyllideb ychwanegol 		
<p>(Eitem 11ii)</p>	<p>13.3 Derbyniwyd adroddiad gan yr Ysgrifennydd ar gyllideb y Coleg ar gyfer 2021/22 gan nodi'r cywiriad i'r ffigwr a gylchredwyd sef cyfanswm o £7,636,000.</p> <p>13.5 Derbyniwyd adroddiad llafar ar fuddsoddiadau'r Coleg gan y Cofrestrydd.</p> <p>13.6 Yn dilyn trafodaeth cadarnhawyd y gyllideb yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol gan nodi'r gyllideb atodol a ddarparwyd yn y cyfamser ar gyfer addysg bellach a phrentisiaethau.</p> <p>13.7 Cymeradwywyd defnyddio incwm polisi Buddsoddiadau'r Coleg er mwyn ychwanegu at y cyllid fydd gan y Coleg i'w wario ar gynnal y gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio.</p>		

<p>14. Llythyr Grant Llywodraeth Cymru</p>	<p>Llythyr Grant</p> <p>14.1 Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllideb y Coleg ar gyfer 2021/22. Cylchredir y llythyr grant pan ddaw i law.</p>	<p>Cylchredeg y Llythyr Grant</p>	<p>Gwanwyn 2021</p>
<p>15. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol</p>	<p>Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (y Llys)</p> <p>15.1 Adroddwyd ar Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Llys a gynhaliwyd dros <i>Teams</i> y diwrnod blaenorol. Nodwyd y derbyniwyd adroddiad blynyddol rhyngweithiol cyntaf y Coleg ar gyfer 2019/20; a chyfrifon archwiliedig y Coleg ar gyfer 2019/20.</p> <p>15.2 Nodwyd bod Mudiad Meithrin, sy'n aelod rhanddeiliadol, wedi gofyn a oedd yn briodol iddynt rannu adnoddau'r Coleg gyda'u partneriaid.</p> <p>15.3 Adroddodd y Prif Weithredwr ar y posibilrwydd o gynnal digwyddiad i ddathlu dengmlwyddiant y Coleg yn nhymor yr Hydref 2021.</p> <p><i>Ar y pwynt ymadawodd staff y Coleg a'r sylwedyddion</i></p>		
<p>16. Eitem gaeëdig: Adolygu cyflogau'r Prif Weithredwr a'r uwch reolwyr</p>	<p>Adolygu cyflogau'r Prif Weithredwr a'r uwch reolwyr</p> <p>16.1 Yn dilyn trafodaeth ar ystyriaethau yn deillio o gyfarfod caeëdig y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2021, penderfynwyd y dylai'r Pwyllgor roi ystyriaeth bellach i'r wybodaeth meicnodi allanol ac i'r oblygiadau mewnol.</p>		

<p>17. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf</p>	<p>17.1 Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 30 Mehefin 2021: rhithiol • 17 Tachwedd 2021 • 23 Mawrth 2022 • 29 Mehefin 2022 <p>17.2 Diolchwyd i Osian Rhys am gyfiethu ar y pryd.</p>		
---	--	--	--